# Pen-blwydd hapus SCCH

DATHLU 20 MLYNEDD O SWYDDOGION
CYMORTH CYMUNEDOL YR HEDDLU

SCCH
20
DATHLU
AMDDIFFYN

UNISON
Cymru Wales

Eleni, mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) yn dathlu 20 mlynedd o ddarparu plismona yn y gymdogaeth. Crëwyd rôl SCCH gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, ac ers hynny mae SCCH wedi profi eu gwerth.

Eleni, mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (SCCH) yn dathlu 20 mlynedd o ddarparu plismona yn y gymdogaeth. Crëwyd rôl SCCH gan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, ac ers hynny mae SCCH wedi profi eu gwerth.

UNSAIN yw'r undeb ar gyfer SCCH. Gobeithiwn y byddwch chi, a'r holl ASau, Aelodau Senedd Cymru, Prif Gwnstabliaid, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu, Arweinwyr Cynghorau a Meiri Etholedig eraill yng Nghymru a Lloegr, yn ymuno â ni i ddathlu llwyddiant SCCH wrth ddarparu plismona lleol dros yr 20 mlynedd diwethaf.

Mae SCCH yn darparu presenoldeb heddlu gweladwy iawn. Maent yn helpu i atal ymddygiad gwrthgymdeithasol, yn rhoi sicrwydd i bobl, yn casglu gwybodaeth ac yn gweithio gyda busnesau, ysgolion a phartneriaid statudol i gadw cymunedau'n ddiogel. Mae SCCH yn rym er daioni.

Mae pobl wrth eu bodd â gwelededd SCCH, eu gwybodaeth fanwl am ardaloedd lleol a'r ffaith eu bod yn hygyrch. Denodd rôl SCCH y gyfran uchaf erioed o weithwyr newydd o blith cymunedau Croenddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i'r heddlu. Yn syml, mae SCCH yn allweddol i gynnal hyder y cyhoedd mewn plismona.

Er gwaethaf eu llwyddiant, mae niferoedd SCCH yn Lloegr wedi gostwng 45% ers 2010. Yng Nghymru, mewn cyferbyniad, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi mewn SCCH ychwanegol, gan ddangos yn amlwg iawn, lle mae yna ewyllys gwleidyddol, y gellir mynd ati i gynyddu plismona yn y gymdogaeth.

Felly, ar y pen-blwydd hwn, mae UNSAIN yn galw arnoch chi i ymrwymo i gefnogi gweithlu PCSO am yr 20 mlynedd nesaf. Bydd angen cyllid ychwanegol er mwyn cynyddu niferoedd SCCH yn Lloegr. Mae UNSAIN yn galw am 7,600 o swyddi SCCH ychwanegol yma i wneud iawn am y rhai a gollwyd ers 2010.

Trwy ailadeiladu'r gweithlu SCCH yn Lloegr, a thrwy barhau â'r lefel uchel o gefnogaeth yng Nghymru, mae gan yr heddlu a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu bopeth i'w ennill.

SCCH 20
DATHLU AMDDIFFYN















Lluniau gan: Ralph Hodgson a Natasha Hirst

SCCH 20

DATHLU AMDDIFFYN

# DATHLU 20 MLYNEDD O SWYDDOGION CYMORTH CYMUNEDOL YR HEDDLU

Anfonwyd ar ran ein haelodau SCCH

Am fwy o wybodaeth ewch i

unison.org.uk/pcso20

**Ariannwyd gan Gronfa Ymgyrchu UNSAIN**

UNISON Cymru Wales

Cyhoeddwyd ac argraffwyd gan UNSAIN, Canolfan UNSAIN, 130 Euston Road, Llundain NW1 2AY.
CU/Mehefin 2022/26824/UNP 16128. 200.